Dŵr Cymru
Welsh Water

YMGYNGHORIAD

# Ein Strategaeth ar gyfer y dyfodol

## Ail-adeiladu ymddiriedaeth trwy gryfhau ein sylfeini

Strategaeth Dŵr Cymru
Dogfen ymgynghori | Hydref 2026

# Gwasanaeth hanfodol. Dewisiadau hirdymor.

**Cryfhau ein galluoedd craidd, ail-adeiladu ymddiriedaeth.**

## Ein gweledigaeth yw meithrin cymunedau sy'n ffynnu trwy ddarparu gwasanaethau dŵr o'r radd flaenaf.

Mae dŵr yn hanfodol i bob cartref, cymuned, a busnes yr ydym yn ei wasanaethu. Mae ein gwasanaethau hefyd yn rhan hanfodol o ddarparu amgylchedd dŵr glân ac ecosystemau dyfrol sy'n ffynnu sy'n cefnogi dyfodol cynaliadwy a llewyrchus i Gymru a'r holl ardaloedd yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae cwsmeriaid a chymunedau yn dibynnu arnom i ddarparu dŵr yfed diogel a helaeth, i drin a chael gwared ar ddŵr gwastraff a charthion, ac i reoli seilwaith hanfodol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ac eto, wrth ysgrifennu hyn, rydym yn methu â bodloni gofynion sylfaenol, mae llawer o asedau mewn cyflwr gwael, ac mae heriau amgylcheddol yn cynyddu. Mae penderfyniadau anodd o'n blaenau.

Mae'r Strategaeth hon yn darparu cyfeiriad hirdymor ar gyfer Dŵr Cymru. Mae'n esbonio'r canlyniadau y mae cwsmeriaid yn dymuno i ni eu cyflawni, y dewisiadau y bydd angen i ni eu gwneud, a sut y byddwn yn llywio ffordd well ymlaen.

# Cynnwys


Rhagair 4
Cipolwg ar y Strategaeth 5

01 Pam y Strategaeth hon, pam nawr? 6
Pam nawr? 7
Dŵr Cymru heddiw: cyd-destun gweithredu unigryw 8
Heriau presennol a'r cyfle i wneud yn well 9

02 Y dyfodol yr ydym yn cynllunio ar ei gyfer 10
Y cyd-destun newidiol 11
Pwysau a chyfyngiadau 12
Gwneud dewisiadau hirdymor 13

03 Yr hyn y mae cwsmeriaid a rhanddeiliaid wedi ei ddweud wrthym 14
Sut rydym wedi ymgysylltu 15
Yr hyn a glywsom mewn rhifau ac yng ngeiriau cwsmeriaid eu hunain 16
Negeseuon allweddol gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid 17
Sut rydym wedi defnyddio'n safbwyntiau hyn yn y Strategaeth 18

04 Ein canlyniadau strategol 19
Dŵr — Ein hamcanion strategol a pham maent yn bwysig 21
Dŵr — Dibynadwy heddiw, gwydn fory 22
Dŵr — Cymryd cyfrifoldeb a gweithio gydag eraill 23
Dŵr — Trawsnewid hirdymor 24
Amgylchedd — Ein hamcanion strategol a pham maent yn bwysig 26
Amgylchedd — Gwella heddiw, diogelu yfory 27
Amgylchedd — Cymryd cyfrifoldeb a gweithio gydag eraill 28
Amgylchedd — Trawsnewid hirdymor 30
Cwsmeriaid a chymunedau — Ein hamcanion strategol a pham maent yn bwysig 32
Cwsmeriaid a chymunedau — Adennill ymddiriedaeth heddiw, hyderus am yfory 33
Cwsmeriaid a chymunedau — Cymryd cyfrifoldeb a gweithio gydag eraill 34
Cwsmeriaid a chymunedau — Trawsnewid hirdymor 35

05 Egwyddorion cyflawni a galluogwyr 36
Ein hegwyddorion cyflawni 37
Galluogwyr — Yr hyn sydd ei angen arnom er mwyn cyflawni ein canlyniadau strategol 38
Sut mae galluogwyr cryfach yn newid cyflawniad 39

06 O Strategaeth i gyflawni 40
Troi Strategaeth yn gyflawni 41
Parhau i gynnwys pobl ac adrodd ar gynnydd 42
Rhannwch eich safbwyntiau 43

# Rhagair

## Eich Strategaeth chi, eich llais chi.

Mae'r ddogfen ddrafft hon yn cyflwyno ein Strategaeth hirdymor ar gyfer Dŵr Cymru. Mae'n esbonio'r canlyniadau yr ydym yn dymuno eu cyflawni ar gyfer cwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd, yr egwyddorion a fydd yn llywio ein penderfyniadau, a'r galluoedd y mae angen i ni eu cryfhau i sicrhau gwelliant a fydd yn para.

Nid oes amheuaeth mai drafft yw'r Strategaeth hon o hyd. Rydym yn ei chyhoeddi nawr gan ein bod yn dymuno i gwsmeriaid, cydweithwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid herio ein syniadau a'n helpu i'w gwella. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, byddwn yn cynnal sesiynau ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid ar draws ein hardal weithredu, gan wrando ar wahanol safbwyntiau rhanbarthol ac archwilio'r blaenoriaethau, y dewisiadau a'r cyfaddawdau a ddylai lunio ein cyfeiriad yn y dyfodol.

## Yr hyn a fydd yn digwydd nesaf

Byddwn yn ystyried yr adborth a dderbyniwyd ac yn parhau i fireinio'r Strategaeth cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol ym mis Ionawr 2027.

Bydd y Strategaeth yn pennu ein cyfeiriad hirdymor, ond ni fydd yn datrys pob dewis buddsoddi, fforddiadwyedd a chyflawni. Yn ystod 2027, byddwn yn gweithio gyda chwsmeriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu'r Cynllun Cyfalaf a Gweithredol Hirdymor, a fydd yn troi'r Strategaeth yn llwybrau, yn flaenoriaethau ac yn ddewisiadau buddsoddi mwy manwl.

Bydd y Cynllun terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2028, gan gynnig un golwg hirdymor ar uchelgeisiau strategol, blaenoriaethau cwsmeriaid, rhwymedigaethau, gofynion gweithredu, anghenion asedau ac ystyriaethau ariannol.

## Lleisio eich barn

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar y Strategaeth ddrafft, gan gynnwys:

- a ydym wedi nodi'r canlyniadau a blaenoriaethau cywir;
- a ydym a yw ein hegwyddorion cyflawni arfaethedig yn eglur ac yn gredadwy;
- a ydym wedi bod yn ddigon onest am yr heriau, y dewisiadau a'r cyfaddawdau sydd o'n blaenau; a'r
- yr hyn yr ydych yn credu ddylai newid cyn cwblhau'r Strategaeth.

Darperir rhestr lawn o gwestiynau ar dudalen olaf y ddogfen hon. Ymatebwch drwy'r ddolen a ddarperir neu anfonwch eich sylwadau i **strategy@dwrcymru.com** gan nodi "Ymgynghoriad ar y Strategaeth" yn llinell y pwnc.

# Cipolwg ar y Strategaeth

## Meithrin cymunedau sy'n ffynnu trwy ddarparu gwasanaethau dŵr o'r radd flaenaf

### SUT MAE LLWYDDIANT YN EDRYCH

Canlyniadau gwell i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd

**1**

**DŴR DIOGEL, O ANSAWDD UCHEL A DIBYNADWY**

Diogel a dibynadwy

Cyflenwadau dibynadwy

Adnoddau a rhwydweithiau gwydn

**2**

**AMGYLCHEDD DŴR IACHACH**

Afonydd a thraethau glân

Atal llygredd

Ecosystemau gwydn

**3**

**CWSMERIAID BODLON A CHYMUNEDAU SY'N FFYNNU**

Profiad rhagorol i gwsmeriaid

Fforddiadwy a chynhwysol

Effaith economaidd gadarnhaol

### SUT I GYRRAEDD Y NOD

**CANOLBWYNTIO AR YR HANFODION YN GYNTAF**

Sicrhau bod anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu cyn sicrhau safonau uwch

**DARPARU GWASANAETHAU CRAIDD**
Dibynadwyedd, cydymffurfiad, lleihau risgiau

**DATBLYGU GWYDNWCH**
Paratoi ar gyfer straen hirdymor

**BODLONI SAFONAU UWCH**
Pan fo'n fforddiadwy ac yn cael ei gefnogi gan gwsmeriaid

**GWEITHIO GYDAG ERAILL**

I gyflawni canlyniadau y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol

**CWSMERIAID**
Ymgysylltu, cymryd rhan a newid ymddygiad

**PARTNERIAETHAU**
Cydweithredu i gyflawni canlyniadau cyffredin

**DIWYGIO RHEOLEIDDIO**
Galluogi canlyniadau sy'n cynnig mwy o werth

**CYNLLUNIO SYSTEMAU**
Cydgysylltu cynlluniau, dibyniaethau a chyfrifoldebau responsibilities

**BUDDSODDI YN SYLFEINI EIN BUSNES**

Yr asedau, y bobl a'r systemau sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r tri chanlyniad

**ASEDAU**
Stiwardiaeth o asedau a buddsoddiad ynddynt

**POBL**
Arweinyddiaeth, diwylliant a galluoedd

**SYSTEMAU DIGIDOL**
Technoleg a data

01

# Pam y Strategaeth hon, pam nawr?

Asesiad gonest o'n sefyllfa bresennol, pam mae angen newid a'r cyfle i ail-adeiladu ymddiriedaeth.

# Pam nawr?

Tri rheswm pam mae angen Strategaeth hirdymor newydd, ar adeg ysgrifennu hyn (Hydref 2026).

1

**PERFFORMIAD**

Mewn rhai meysydd o berfformiad, nid ydym yn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid a rheoleiddwyr, na'n safonau ein hunain. Mae'n rhaid i adfer perfformiad ac ail-adeiladu ymddiriedaeth ddod yn gyntaf, gan ddechrau gyda'r gwasanaeth a'r canlyniadau sydd bwysicaf i'n cwsmeriaid.

2

**PWYSAU**

Mae newid hinsawdd, asedau sy'n heneiddio, a disgwyliadau cwsmeriaid a rheoliadau, yn cynyddu'r galw ar y busnes. Mae'n rhaid i ni nodi cyfleoedd i weithio'n well mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau hynny a chyflawni canlyniadau gwell am gost is.

3

**CYFLE**

Wrth i ni ddatblygu Cynllun Cyfalaf a Gweithredol Hirdymor newydd ar gyfer y busnes, a pharatoi ar gyfer yr Adolygiad Prisiau nesaf, bydd Strategaeth newydd yn ein helpu i fod yn eglur am y dewisiadau anodd sydd o'n blaenau, sut y byddwn yn meddwl am flaenoriaethau, a'r egwyddorion a fydd yn sail i'r broses gwneud penderfyniadau. Gallai hefyd helpu i hysbysu datblygiad newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio.

**Fel cymdeithas, mae angen sgwrs onest arnom am yr hyn sydd bwysicaf, pa mor gyflym y gellir cyflawni gwelliannau, a sut y dylid rhannu costau yn deg. Mae'r Strategaeth hon yn gyfraniad at y ddadl honno.**

# Dŵr Cymru heddiw: cyd-destun gweithredu unigryw

Mae Dŵr Cymru yn darparu gwasanaethau hanfodol ar draws y rhan fwyaf o Gymru a rhannau cyfagos o Loegr. Mae ein daearyddiaeth, ein hamgylchedd, ein heconomi a'n model perchnogaeth yn creu cyd-destun gweithredu unigryw, gan lunio'r heriau sy'n ein hwynebu a'r dewisiadau y mae'n rhaid i ni eu gwneud ar gyfer y dyfodol.

### POBLOGAETH A RHWYDWAITH GWASGAREDIG

Mae llawer o gymunedau wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd gwledig ac arfordirol. Mae rhwydweithiau helaeth a llawer o weithfeydd trin llai yn gwneud gwasanaethau ar y cyd yn fwy cymhleth a chostus i'w gweithredu a'u cynnal a'u cadw.

### AMGYLCHEDD DŴR SENSITIF

Mae llawer o afonydd yn fach ac yn amgylcheddol sensitif, ochr yn ochr â morlin helaeth a chynefinoedd pwysig. Mae camau trin, atal llygredd a dalgylch effeithiol yn arbennig o bwysig.

### GLAWIAD: BUDD A HER

Mae glawiad uchel yn cynorthwyo adnoddau dŵr yn gyffredinol, ond gall cyfeintiau mawr o ddŵr wyneb lifo i systemau draenio a charthffosiaeth. Mae tywydd mwy eithafol yn cynyddu pwysau o ddŵr ffo a llifogydd.




### ARFORDIROEDD GLÂN YN CEFNOGI FFYNIANT

Mae twristiaeth yn bwysig i gymunedau arfordirol a gwledig. Mae traethau, afonydd a thirweddau glân yn bwysig i fwynhad y cyhoedd, busnesau lleol, cyflogaeth ac enw da ehangach yr ardal.

### MATERION FFORDDIADWYEDD

Mae llawer o gwsmeriaid yn byw mewn cymunedau incwm is lle mae biliau dŵr yn gost sylweddol. Rhaid cydbwyso buddsoddiad â fforddiadwyedd, tegwch a chymorth effeithiol.

### GWAHANOL FODEL PERCHNOGAETH

Nid oes gan Dŵr Cymru unrhyw gyfranddalwyr ac nid yw'n talu unrhyw ddifidendau. Gellir ail-fuddsoddi unrhyw rian sydd dros ben fuddsoddi unrhyw arian sydd dros ben, ac mae gwydnwch ariannol a hyder buddsoddwyr yn parhau i fod yn hanfodol i godi cyllid hirdymor yn effeithlon.

### TOPOGRAFFI

Mae tir pennaf fryniog a gwledig Cymru a'r crynodiad o gymunedau yng Nghymoedd y De yn gwneud ein rhwydweithiau yn fwy cymhleth a chostus i'w gweithredu. Gall llethrau serth, asedau gwasgaredig a mynediad anodd gynyddu gofynion pwmpio, costau cynnal a chadw a'r amser sydd ei angen i drwsio seilwaith.

**Mae'r nodweddion hyn yn gwneud cynllunio hirdymor yn arbennig o bwysig: mae'n rhaid i atebion adlewyrchu daearyddiaeth a chymunedau lleol, diogelu amgylchedd sensitif, parhau i fod yn fforddiadwy a gwneud y defnydd gorau o'n model perchnogaeth unigryw.**

# Heriau presennol a'r cyfle i wneud yn well

## Man cychwyn gonest

Wrth i ni baratoi'r Strategaeth hon, rydym yn wynebu heriau rhyng-gysylltiedig o ran perfformiad, cyflwr asedau, gwydnwch hirdymor a fforddiadwyedd. Ceir ansicrwydd hefyd am ddyfodol rheoleiddio dŵr, a sut y bydd diwygiadau yn cael eu rhoi ar waith yn ein hardal. Ar yr un pryd, mae gennym gyfle i ail-lunio ein busnes ar gyfer y dyfodol: adennill hyder yn ein gwasanaethau, gwella canlyniadau i gwsmeriaid a'r amgylchedd, llunio fframwaith rheoleiddio gwell, a chreu sefydliad mwy gwydn sy'n gallu diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Mae llawer o'r heriau sy'n ein hwynebu yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl yn wahanol am sut yr ydym yn buddsoddi ac yn cyflawni gwelliant. Mae seilwaith sy'n heneiddio, newid hinsawdd a disgwyliadau cynyddol yn golygu bod yn rhaid i ni edrych y tu hwnt i adferiad byrdymor a mabwysiadu dull tymor hwy, mwy ataliol. Trwy fynd i'r afael â gwreiddiau'r broblem, gan weithio mewn partneriaeth ar draws dalgylchoedd a gwneud mwy o ddefnydd o atebion seiliedig ar natur a system gyfan, gallwn gyflawni canlyniadau a gwerth hirdymor gwell.

Bydd cyflawni'r uchelgais hwn yn golygu gwneud dewisiadau anodd. Mae'n rhaid i ni gydbwyso cyflymder gwelliant â'r hyn sy'n fforddiadwy, y mae modd ei ariannu ac y gellir ei gyflawni, tra'n sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei dargedu lle gall wneud y gwahaniaeth mwyaf. Mae'n rhaid i ni hefyd barhau i eirioli dros fframweithiau rheoleiddio a pholisi sy'n cysoni buddsoddiad, cymhellion a chyflawniad yn well gyda'r canlyniadau y mae cwsmeriaid a chymdeithas eisiau eu gweld.

Rydym yn cydnabod bod llwyddiant yn dibynnu nid yn unig ar fuddsoddiad, ond ar ein gallu i gyflawni. Mae angen felly i ni gryfhau ein dealltwriaeth o gyflwr a pherfformiad asedau, gwella ein gallu i gynllunio a chyflawni yn effeithiol, ac adeiladu partneriaethau dyfnach gydag eraill. Dyma sylfeini busnes a all droi buddsoddiad yn ganlyniadau gwell yn gyson.

Mae'r Strategaeth hon yn nodi ein huchelgais i ail-adeiladu ymddiriedaeth, i gryfhau sylfeini'r busnes ac i greu cysylltiad mwy eglur rhwng biliau cwsmeriaid, buddsoddiad, cyflawniad a chanlyniadau. Fe'i bwriedir nid yn unig fel ymateb i heriau'r presennol, ond fel sail ar gyfer cynllun hirdymor i greu Dŵr Cymru cryfach a mwy gwydn.



**Ein her yw gwella perfformiad ac ail-adeiladu hyder tra'n paratoi ar gyfer dyfodol mwy heriol, hyn i gyd o fewn amgylchedd cyllido cyfyngedig.**

02

# Y dyfodol yr ydym yn cynllunio ar ei gyfer

Mae tueddiadau hirdymor yn ail-lunio'r risgiau, y disgwyliadau a'r cyfleoedd sy'n wynebu gwasanaethau dŵr yn ein hardal.

# Y cyd-destun newidiol

Mae angen i ni ragweld tueddiadau, nid ymateb iddynt yn unig.

### TUEDDIADAU HIRDYMOR HYD AT 2055



**NEWID HINSAWDD**
Bydd achosion mwy aml o sychder, llifogydd a thywydd eithafol yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau.



**ASEDAU SY'N HENEIDDIO**
Bydd angen mwy o gynnal a chadw, adnewyddu a disodli ar sail asedau sy'n heneiddio dros amser.



**TUEDDIADAU ECONOMAIDD**
Bydd twf, chwyddiant, fforddiadwyedd ac amodau cyllido yn llunio biliau a dewisiadau buddsoddi.



**AMGYLCHEDD**
Bydd ecosystemau sy'n newid a disgwyliadau cynyddol yn gofyn am ddulliau newydd o ddiogelu afonydd a natur.



**TWF A GALW**
Bydd tai, poblogaeth a defnydd dŵr sy'n newid yn cyflwyno gofynion newydd ar rwydweithiau ac adnoddau.



**NEWID RHEOLEIDDIO A PHOLISI**
Bydd polisi a rheoleiddio llywodraethol yn llunio blaenoriaethau, buddsoddiad a sut mae canlyniadau yn cael eu cyflawni.



**DIGIDOL A DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL**
Bydd data, awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial yn ail-lunio sut mae gwasanaethau yn cael eu gweithredu, eu cynnal a'u cadw a'u defnyddio.



**DISGWYLIADAU CYMDEITHASOL SY'N ESBLYGU**
Yn gynyddol, mae cwsmeriaid yn disgwyl gwasanaeth gwell, mwy o dryloywder a chynnydd amgylcheddol cyflymach.



**ANSICRWYDD GEOWLEIDYDDOL**
Gall ansefydlogrwydd byd-eang darfu ar gadwyni cyflenwi ac effeithio ar ynni, gweithlu a mynediad at gyfalaf.

Nododd ein hasesiad blaenorol, Dŵr Cymru 2050: Adolygiad a Diweddariad (2023), lawer o'r tueddiadau, risgiau a chyfleoedd hirdymor sy'n parhau i lunio ein dyfodol. Mae rhai bellach yn datblygu'n gyflymach na ragwelwyd bryd hynny, yn enwedig newid hinsawdd, diwygio rheoleiddio, technoleg a deallusrwydd artiffisial. Mae angen i ni achub y blaen ar y newidiadau hyn, rhagweld eu goblygiadau a'u hymgorffori yn ein cynlluniau, tra'n parhau i fod yn hyblyg yn wyneb ansicrwydd. Mae angen hefyd i'r fframwaith rheoleiddio sy'n esblygu adlewyrchu'r angen hwn am hyblygrwydd a meddwl hirdymor.

# Pwysau a chyfyngiadau

Mae heriau yn cynyddu, ond mae'r gallu i ymateb wedi'i gyfyngu.

## Cyfyngiadau ar gyflymder gwelliant

### BILIAU FFORDDIADWY



Mae llawer yn ein cymunedau yn cael trafferthion gyda chostau byw, gan gynnwys cost biliau dŵr ac ynni.

### GOFYNION RHEOLEIDDIO



Mae cyfran sylweddol o fuddsoddiad yn cael ei hysgogi gan ofynion statudol a rheoleiddio. Gall hyn leihau hyblygrwydd i flaenoriaethu gwariant yn seiliedig ar ddymuniadau cwsmeriaid.

### CYLLIDO



Mae'n rhaid i ni gynnal mantolen iach er mwyn parhau i ddenu cyllid i ariannu buddsoddiad hirdymor am gost resymol. Mae hyn yn gosod cyfyngiad ar fuddsoddiad, oni bai ein bod yn barod i weld cynnydd pellach i filiau.

### GALLU I GYFLAWNI



Mae cyfanswm y buddsoddiad y gallwn ei ddarparu yn dibynnu ar bartneriaid darparu cyfalaf a chapasiti gweithlu a chadwyn gyflenwi arall.

Yn y pen draw, telir ein holl gostau trwy filiau cwsmeriaid. Yn achos buddsoddiad hirdymor, caiff ei ariannu trwy fenthyg sydd wedyn yn cael ei ad-dalu dros amser, yn debyg iawn i forgais. Gan nad oes gennym gyfranddalwyr, nid ydym yn talu difidendau, felly gellir cadw unrhyw elw a'i ail-fuddsoddi. Mae hefyd yn golygu bod yn rhaid i ni gynnal mantolen iach er mwyn denu dyled am y gost leiaf posibl.

Mae'r holl ffactorau hyn yn arwain at gyfyngu cyflymder buddsoddiad a dewisiadau anodd am flaenoriaethau ein cwsmeriaid. O gofio'r cyfyngiadau hyn, hyd yn oed â gwell effeithlonrwydd efallai y bydd bwlch rhwng yr hyn yr hoffai cwsmeriaid a rheoleiddwyr i ni ei gyflawni, a'r hyn y gellir ei gyflawni yn realistig ac yn fforddiadwy. Efallai y bydd angen ystyried cymorth llywodraethol neu drydydd parti os ydym, fel cymdeithas, eisiau goresgyn yr her hon.

# Gwneud dewisiadau hirdymor

Bydd ein Cynllun Cyfalaf a Gweithredol Hirdymor yn troi uchelgais yn ddewisiadau cytbwys. Bydd y broses yn cychwyn gyda'r canlyniadau y mae cwsmeriaid a rheoleiddwyr eisiau eu gweld, yn amlygu'r berthynas rhwng perfformiad, buddsoddiad a biliau, ac yna'n sefydlu'r cynllun mwyaf credadwy o fewn cyfyngiadau ariannol a chyflawni.

## DIFFINIO YR UCHELGAIS

### Nodi yr hyn sydd ei angen ac sy'n cael ei werthfawrogi

Egluro llwybr gofynion rheoleiddio yn y dyfodol. Gofyn i gwsmeriaid beth maen nhw eisiau yn ddelfrydol gan wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff, lle mae gwelliant bwysicaf a pha ganlyniadau y maent yn eu gwerthfawrogi fwyaf.

## GWNEUD Y DEWISIADAU YN RHAI GO IAWN

### Profi opsiynau perfformiad a biliau

Dangos y perfformiad y byddai gwahanol becynnau buddsoddi yn ei sicrhau, yr hyn y byddai pob un yn ei olygu i filiau, a chyflymder y newid dan sylw. Gofyn beth fyddai cwsmeriaid talu mwy i'w gyflawni, i'w amddiffyn, i'w ohirio neu ei ailystyried o dan bwysau fforddiadwyedd.

## TROI DYMUNIADAU YN LLWYBRAU

### Llunio cynllun credadwy y gellir ei gyflawni

Llunio cynllun wedi'i ariannu ac mewn trefn sy'n adlewyrchu dymuniadau cwsmeriaid tra'n bodloni rhwymedigaethau statudol ar gyflymder sy'n dderbyniol i reoleiddwyr. Profi fforddiadwyedd, gallu i gyllido, capasiti sefydliadol, cyfyngiadau cadwyn gyflenwi a'r angen i gadw llwybrau yn hyblyg.

**Mae dewisiadau ystyrlon yn gofyn am eglurder am faint fydd gwahanol lefelau ac amseriadau o fuddsoddiad yn ei gostio i'n cwsmeriaid, pa ganlyniad y byddant yn eu cyflawni a'r hyn y gallai fod angen ei ohirio.**

03

# Yr hyn y mae cwsmeriaid a rhanddeiliaid wedi ei ddweud wrthym

Mae tystiolaeth cwsmeriaid yn hysbysu'r Strategaeth, ochr yn ochr â dyletswyddau, risg, fforddiadwyedd a gallu i gyflawni.

# Sut rydym wedi ymgysylltu

Rydym wedi rhedeg rhaglen eang o ymchwil, deialog ac ymgynghori cynrychioliadol i hysbysu'r Strategaeth hon.

### YMCHWIL ANSODDOL

Cymerodd dros 350 o gwsmeriaid, yn cynrychioli amrywiaeth ein sail gwsmeriaid, ran mewn gweithdai ymgynghorol ar draws Abertawe, Caerdydd, Llandudno, Caer a Henffordd. Roedd y rhain yn cynnwys cwsmeriaid o aelwydydd a busnesau, ac fe'u hategwyd gan gyfweliadau un i un gyda chwsmeriaid bregus.

### AROLYGON MEINTIOL

Cymerodd 1,200 o gwsmeriaid ran mewn arolwg a oedd yn gynrychioliadol yn genedlaethol, gan gynnwys 1,000 o gwsmeriaid o aelwydydd a 200 o gwsmeriaid busnes. Strwythurwyd y sampl aelwydydd i adlewyrchu'r sail gwsmeriaid fesul oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhanbarth, ac roedd yn cynnwys cwsmeriaid bregus a chwsmeriaid sydd wedi'u hymddieithrio'n ddigidol.

### YMGYSYLLTIAD TORFOL

Cynhaliwyd arolwg gennym ar-lein ac mewn sioeau, digwyddiadau ac yn ein canolfannau ymwelwyr yn ystod haf 2026, gan gasglu mwy na 4,300 o ymatebion.

### DEIALOG Â RHANDDEILIAID

Cafwyd sgyrsiau rhanbarthol a thematig gyda sefydliadau perthnasol, ymgyrchwyr a chynrychiolwyr grwpiau rhanddeiliaid.

### MEWNBWN GAN GYDWEITHWYR

Trefnwyd gweithdai a sioeau teithiol gennym gyda dros 500 o gyflogeion Dŵr Cymru i glywed gan gydweithwyr ac i herio ein syniadau.

## Sgwrs barhaus

Mae ymgysylltu yn cynnig tystiolaeth o flaenoriaethau cwsmeriaid a rhanddeiliaid. Nid yw'n cael gwared ar yr angen am grebwyll, a bydd yn parhau wrth i'r Strategaeth a'r Cynllun Hirdymor ddatblygu. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gwahodd cwsmeriaid i gynnig eu safbwyntiau ac ymateb i'n syniadau cynnar.

# Yr hyn a glywsom mewn rhifau ac yng ngeiriau cwsmeriaid eu hunain

Mae cwsmeriaid yn cefnogi gwelliant hirdymor, ond mae'n rhaid ennill hyder trwy gyflawni amlwg, fforddiadwyedd, tryloywder a phwyslais ar y materion sydd bwysicaf.

## UCHAFBWYNTIAU YMCHWIL

**53%**
o gwsmeriaid o aelwydydd yn dweud bod Dŵr Cymru yn cynnig gwerth da am arian.

**73%**
o gwsmeriaid o aelwydydd yn fodlon â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn.

**73%**
yn cytuno ei bod yn well trwsio pethau'n barhaol hyd yn oed pan fo'n costio mwy i gwsmeriaid nag atgyweiriad byrdymor rhatach.

**6.7**
sgôr ymddiriedaeth cyfartalog allan o 10 gan aelwydydd (7.7 gan gwsmeriaid busnes).

**51%**
o gwsmeriaid o aelwydydd yn dweud y dylai Dŵr Cymru fod yn fwy uchelgeisiol am ei nodau hirdymor nawr, hyd yn oed os oes yn rhaid i filiau godi mwy, ond dim ond 37% o gwsmeriaid bregus.

**32%**
o gwsmeriaid o aelwydydd yn dweud bod cynnydd uwch na chwyddiant graddol i filiau i ariannu buddsoddiad yn annerbyniol, o'i gymharu â 46% sy'n dweud ei fod yn dderbyniol.


## YNG NGEIRIAU CWSMERIAID EU HUNAIN

> I mi, yr hanfodion yw dŵr yfed diogel yn barhaus, y gallu i fflysio'r toiled ac i ymolchi a pheidio â bod â charthion yn yr ardd.
>
> **Cwsmer o aelwyd, Caer**

> Rwy'n credu bod dŵr yn hawl sylfaenol ac na ddylai neb fod heb ddŵr ar unrhyw adeg, ac rwy'n credu pe gallen nhw sicrhau hynny yna nid wyf i'n credu y byddai ots gennych chi dalu ychydig mwy.
>
> **Cwsmer o aelwyd, Caerdydd**

## BLAENORIAETH UCHAF CWSMERIAID

Gofynnom i gwsmeriaid roi'r saith amcan hyn yn nhrefn eu pwysigrwydd iddynt fel blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad gan Dŵr Cymru. Mae'r graff yn dangos canran y tair blaenoriaeth uchaf.



# Negeseuon allweddol gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid

Mae cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn cefnogi gwelliant hirdymor, ond mae'n rhaid ennill hyder a chefnogaeth trwy well perfformiad, gwerth am arian eglur, dewisiadau gonest a chyflawni amlwg.

### BLAENORIAETHU Y GWASANAETHAU SY'N BWYSIG BOB DYDD

Darparu yr hanfodion a mynd i'r afael â phroblemau amlwg. Bydd cynnydd o ran gollyngiadau, llygredd, atgyweiriadau ailadroddus a methiannau gwasanaeth eraill yn magu hyder yn y Strategaeth ehangach.

### DANGOS YN EGLUR YR HYN Y BYDD ARIAN CWSMERIAID YN EI GYFLAWNI

Gwneud y cysylltiad rhwng biliau, gwariant a gwelliannau yn amlwg. Esbonio yn blaen yr hyn y bydd buddsoddiad ychwanegol yn ei gyflawni, ac yna adrodd yn agored ar gyflawniad.

### BUDDSODDI AR GYFER YR HIRDYMOR, NID MEWN ATGYWEIRIADAU BYRDYMOR YN UNIG

Mynd i'r afael â gwraidd problemau, gan wella cyflwr asedau a ffafrio atebion hirbarhaus, ataliol lle mae'r angen

### BOD YN ONEST AM FFORDDIADWYEDD, CYFLYMDER A CHYFADDAWDAU

Cydnabod bod fforddiadwyedd yn cyfyngu graddfa a chyflymder newid. Yn gyffredinol, mae cwsmeriaid yn ffafrio buddsoddiad graddol ac yn disgwyl cymorth i'r rhai a fyddai'n cael trafferthion fel arall.

### BOD YN AGORED, YN ATEBOL AC YN HAWDD EICH DEALL

Bod yn ddidwyll am y man cychwyn, yn eglur am flaenoriaethau ac yn dryloyw am ddewisiadau anodd. Adrodd un stori gysylltiedig, wedi'i chefnogi gan gerrig milltir a thystiolaeth o gynnydd.

### Neges ychwanegol gan randdeiliaid

Mae rhanddeiliaid yn cytuno â'r uchod, ac yn dweud bod yn rhaid i Dŵr Cymru gymryd cyfrifoldeb m ei berfformiad ei hun. Fodd bynnag, maent yn dweud y dylai hefyd chwarae rôl o ddod â phartïon at ei gilydd i feithrin partneriaethau, gweithio ag eraill a phwyso am newid i'r system ehangach lle na all canlyniadau gael eu cyflawni gan Dŵr Cymru ar ei ben ei hun. Mae angen dull rhanbarthol i fynd i'r afael ag anghenion amgylcheddol ac adfer ymddiriedaeth cwsmeriaid.

# Sut rydym wedi defnyddio'r safbwyntiau hyn yn y Strategaeth

Rydym wedi defnyddio safbwyntiau gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid i greu dull fesul cam o flaenoriaethu, a roddir ar waith drwy gydol ein Strategaeth.

## DULL FESUL CAM O FLAENORIAETHU

### DARPARU GWASANAETHAU CRAIDD

**Cael yr hanfodion yn iawn**

Blaenoriaethu gwasanaethau diogel a dibynadwy, cydymffurfiaeth â rheoliadau, gweithrediadau effeithiol a stiwardiaeth gadarn o'n hasedau presennol.

### SICRHAU CYNALIADWYEDD HIRDYMOR

**Diogelu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol**

Buddsoddi i reoli asedau sy'n heneiddio, newid hinsawdd a risgiau hirdymor eraill, gan sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn parhau i fod yn wydn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### DARPARU SAFONAU UWCH

**Gwella lle mae'r buddion yn eglur**

Mynd ar drywydd safonau gwasanaeth ac amgylcheddol uwch lle maent yn fforddiadwy, y gellir eu cyflawni, yn cael eu cefnogi gan gwsmeriaid ac yn cynnig gwerth am arian.

### AR BOB CAM

**TRAWSNEWID Y SYSTEM**

**Dod o hyd i ffyrdd gwell o gyflawni'r canlyniadau**

Ar bob cam, gweithio gyda chwsmeriaid, partneriaid, llywodraethau a rheoleiddwyr i fynd i'r afael â gwraidd problemau, i ddiwygio'r system ehangach ac i gyflawni canlyniadau gwell am gost gyffredinol is.

**Cael yr hanfodion yn iawn gyntaf, diogelu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, ac yna mynd ar drywydd safonau uwch ar gyflymder fforddiadwy ac ymarferol, tra'n gweithio gydag eraill i drawsnewid y system ehangach.**

04

# Ein canlyniadau strategol

Yr hyn y mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl, pam mae'n bwysig, a'r hyn y mae'n ei olygu i ni.

CANLYNIAD 1



# Cyflenwad dŵr diogel, o ansawdd uchel, a dibynadwy

Dŵr yfed diogel a dibynadwy sy'n edrych ac yn blasu'n dda, a chyflenwad y gallwch ddibynnu arno, nawr a dros yr hirdymor.

CANLYNIAD 1

# Dŵr — Ein hamcanion strategol a pham maent yn bwysig

Mae cyflenwad dŵr diogel, o ansawdd uchel, a dibynadwy yn hanfodol i unigolion, cymunedau sy'n ffynnu, iechyd y cyhoedd a'r economi.

## AMCANION

- Dŵr yfed diogel, iach, bob amser.
- Dŵr yfed o ansawdd uchel sy'n edrych ac yn blasu'n dda.
- Cyflenwad dŵr dibynadwy, nawr ac am byth.

## PAM MAE'N BWYSIG

Mae diogelwch dŵr yfed yn hanfodol. Dylai cwsmeriaid bob amser allu cymryd hyn yn ganiataol. Mae achosion o darfu ar y cyflenwad yn brin a dylai aros felly. Ein gwaith ni yw sicrhau bod systemau ar waith i sicrhau diogelwch yn y byrdymor a'r hirdymor. Mae'n sail i ymddiriedaeth y cyhoedd, boddhad cwsmeriaid, a chymunedau sy'n ffynnu.

Yn yr un modd, ni ddylai cwsmeriaid boeni a fydd dŵr ar gael pan fo'i angen arnynt. Rhaid i ni wneud ymdrech i sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar y cyflenwad, ac ail-ddechrau'r cyflenwad yn gyflym pan fydd hyn yn digwydd. Mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau bod adnoddau dŵr digonol i gyflenwi ein rhwydwaith a diwallu anghenion cwsmeriaid dros yr hirdymor. Mae hyn yn hollbwysig i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl i gwsmeriaid ac i gefnogi cymunedau sy'n ffynnu.

## DISGWYLIADAU CWSMERIAID AR GYFER 2055

Yn 2055, bydd cwsmeriaid yn gallu cymryd dŵr yfed diogel, o ansawdd uchel yn ganiatáol. Amddiffyn iechyd y cyhoedd fydd ein prif flaenoriaeth o hyd, wedi'i gefnogi gan ddealltwriaeth ddwys o risgiau presennol a bygythiadau'r dyfodol, ac ymrwymiad i'w rheoli cyn iddynt effeithio ar gwsmeriaid. Bydd gan gymunedau hyder bod eu cyflenwad dŵr yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn wydn.

Bydd ein seilwaith trin a chyflenwi dŵr yn ddibynadwy ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, gan adlewyrchu ymrwymiad hirdymor i stiwardiaeth a buddsoddiad cynaliadwy. Bydd cwsmeriaid yn gweld llai o darfu, mwy o ddibynadwyedd, a bod â'r hyder bod asedau yn cael gofal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, nid yn cael eu trwsio pan fyddant yn methu yn unig.

Bydd adnoddau dŵr wedi eu rheoli'n gyfrifol i sicrhau bod cyflenwadau yn aros yn ddiogel yn wyneb newid hinsawdd a phatrymau galw sy'n newid. Yn ystod cyfnodau o dywydd poeth a sych, bydd cwsmeriaid a chymunedau yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o amddiffyn adnoddau dŵr a chynnal gwydnwch.

Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn helpu i greu gwasanaeth dŵr dibynadwy, fforddiadwy a gwydn sy'n parhau i ddarparu dŵr diogel, dibynadwy a fforddiadwy ar gyfer cartrefi, cymunedau a busnesau, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## MESURAU ALLWEDDOL O LWYDDIANT

**Tarfu ar y cyflenwad**
Hyd cyfartalog cyfnodau o darfu a gynlluniwyd neu heb ei gynllunio sylweddol.

**Cyflenwad dŵr digonol**
Cydbwysedd rhwng cyfaint cyflenwad a ragwelwyd a galw cwsmeriaid.

**Gollyngiadau**
Cyfaint y dŵr a gollir i ollyngiadau.

**Ansawdd dŵr tap**
Cydymffurfiad â safonau.

CANLYNIAD 1

# Dŵr — Dibynadwy heddiw, gwydn fory

Er mwyn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid, nawr ac yn y dyfodol, mae angen i ni sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig, ac amddiffyn y gwasanaeth hwnnw rhag risgiau yn y presennol a'r dyfodol. Mae angen hefyd i ni wella perfformiad mewn rhai meysydd blaenoriaeth ar gyflymder sy'n fforddiadwy ac y gellir ei gyflawni.

1

## DARPARU GWASANAETHAU CRAIDD

**Canolbwyntio ar yr hanfodion**

– Dŵr yfed diogel, cydymffurfiad ac amddiffyn iechyd y cyhoedd.
– Cynnal a chadw ac ailwampio seilwaith hollbwysig.
– Gwasanaethau gweithredu ymatebol ac effeithlon.

**Lleihau risgiau byrdymor dros amser**

– Gwydnwch trin.
– Gwydnwch rhwydwaith.
– Seiberddiogelwch a diogelwch ffisegol.
– Gwell gwybodaeth am asedau a rheoli rhagweithiol.

2

## SICRHAU CYNALIADWYEDD HIRDYMOR

– Halogyddion newydd ac ansawdd dŵr crai.
– Newid hinsawdd ac effaith ar wydnwch adnoddau dŵr.
– Gollyngiadau, rheoli galw cwsmeriaid ac effeithlonrwydd dŵr.

3

## SICRHAU SAFONAU UWCH

Mae ein cwsmeriaid yn disgwyl i ni flaenoriaethu gwelliannau i berfformiad o ran y methiannau mwyaf amlwg a dybryd:

– Lleihau gollyngiadau.
– Blas ac ymddangosiad dŵr.
– Llai o darfu a gwasanaeth cwsmeriaid gwell.

Mae darparu dŵr diogel, o ansawdd uchel a dibynadwy yn dechrau gyda chael yr hanfodion yn iawn. Bydd cynnal a chadw ac ailwampio ein seilwaith trin a chyflenwi dŵr, ymateb yn gyflym pan fydd pethau'n mynd o'i le, a rheoli asedau yn effeithiol yn gwella perfformiad gwasanaethau ac yn lleihau llawer o'r risgiau sy'n wynebu cwsmeriaid heddiw. Bydd gwell stiwardiaeth o'n hasedau presennol, wedi'i gefnogi gan wybodaeth well a dull mwy rhagweithiol o gynnal a chadw ac ailwampio, yn ein helpu i atal problemau yn hytrach nag ymateb iddynt yn unig.

Fodd bynnag, ni fydd cynnal a chadw ar ei ben ei hun yn ddigon i ymateb i heriau'r dyfodol. Bydd newid hinsawdd, newid poblogaeth, halogyddion newydd a disgwyliadau cynyddol yn cyflwyno gofynion newydd ar ein systemau dŵr. Ochr yn ochr â buddsoddiad yn sylfeini'r busnes, bydd angen buddsoddiad gwella wedi'i dargedu arnom i wella gwydnwch prosesau trin, i gryfhau rhwydweithiau, i amddiffyn rhag seiberfygythiadau ac i sicrhau adnoddau dŵr digonol ar gyfer y degawdau i ddod.

CANLYNIAD 1

# Dŵr — Cymryd cyfrifoldeb a gweithio gydag eraill

Wrth gyflawni canlyniadau yn ymwneud â'r cyflenwad dŵr, ceir meysydd lle'r ydym yn cymryd y prif gyfrifoldeb, ac eraill lle byddwn yn ffurfio partneriaethau ag eraill fel defnyddwyr dŵr neu berchnogion tir. Byddwn hefyd yn gweithio i ddylanwadu ar gamau gan lywodraeth a rheoleiddwyr i helpu i drawsnewid y ffordd y rheolir y system ddŵr fel sail i effeithiolrwydd a chynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth.

## Cymryd cyfrifoldeb am yr hyn yr ydym yn ei reoli

Ein cyfrifoldeb ni yw darparu dŵr diogel, o ansawdd uchel a dibynadwy yn bennaf oll. Rydym yn atebol am gynnal a chadw ac ailwampio ein hasedau, am sicrhau bod prosesau trin yn dal i fod yn effeithiol, am sicrhau adnoddau dŵr digonol ac am weithredu ein rhwydweithiau yn effeithlon.

Rydym yn mabwysiadu dull hirdymor o ran stiwardiaeth, gan fuddsoddi yng nghyflwr, gwydnwch a dibynadwyedd ein seilwaith fel bod cwsmeriaid yn dioddef llai o darfu, yn meddu ar fwy o hyder ac yn cael gwasanaeth gwell. Bydd gwybodaeth gryfach am asedau, cynnal a chadw rhagweithiol ac ailwampio prydlon yn ein helpi i nodi risgiau yn gynharach a mynd i'r afael â nhw cyn iddynt effeithio ar gwsmeriaid.

## Ffurfio partneriaethau ag eraill

Mae llawer o'r heriau sy'n effeithio ar wasanaethau dŵr yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau ein gweithrediadau. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, cynllunwyr a datblygwyr i gefnogi tai cynaliadwy a thwf economaidd tra'n sicrhau bod seilwaith dŵr a dŵr gwastraff digonol ar waith. Byddwn yn cydweithredu â phrifysgolion, ymchwilwyr a phartneriaid yn y diwydiant i wella dealltwriaeth o fygythiadau sy'n dod i'r amlwg, halogyddion a thechnolegau newydd. A byddwn yn parhau i weithio gyda rheolwyr tir ac eraill i ddiogelu ansawdd heb ei drin ffynonellau dŵr.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda llywodraethau, rheoleiddwyr ac asiantaethau diogelwch i gryfhau gwydnwch yn erbyn risgiau seiber, ffisegol a chymdeithasol ehangach. Trwy ddod ag arbenigedd, tystiolaeth ac amcanion cyffredin ynghyd, gallwn ragweld heriau'r dyfodol yn fwy buan ac ymateb yn fwy effeithiol.

## Dylanwadu ar y system ehangach

Ni ellir datrys rhai o'r heriau hirdymor mwyaf trwy fuddsoddiad mewn seilwaith dŵr yn unig. Byddwn yn gweithio gyda llywodraethwyr a rheoleiddwyr i annog dulliau sy'n atal problemau wrth eu gwraidd, gan gynnwys lleihau cyflwyniad halogyddion niweidiol i'r amgylchedd. Byddwn yn cynorthwyo cwsmeriaid, busnesau a chymunedau i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon, yn enwedig yn ystod cyfnodau o straen ar ddŵr a sychder.

Byddwn hefyd yn annog newid i'r system ehangach, gan gynnwys ailddefnyddio dŵr, systemau dŵr llwyd, datblygiad sy'n effeithlon o ran dŵr ac arloesiadau eraill sy'n lleihau'r galw am ddŵr yfed ac yn gwella gwydnwch. Trwy ddylanwadu ar bolisïau, ymddygiadau a thechnolegau y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol, gallwn helpu i gyflawni canlyniadau gwell am gost is a lleihau pwysau ar filiau cwsmeriaid yn y dyfodol.

CANLYNIAD 1

# Dŵr — Trawsnewid hirdymor

Mae cwsmeriaid yn cydnabod y bydd darparu dŵr diogel, o ansawdd uchel a dibynadwy yn y dyfodol yn gofyn am fwy na buddsoddiad mewn seilwaith traddodiadol. Dros amser, mae'r system ddŵr yn debygol o esblygu tuag at ddalgylchoedd iachach, gweithrediadau mwy clyfar a chyfranogiad cwsmeriaid mwy gweithredol, gan helpu i wella gwydnwch a lleihau costau.

**Y DYFODOL YR HOFFAI CWSMERIAID EI WELD YN 2055:**
**RHEOLI'R SYSTEM DDŴR YN FWY CLYFAR O'R DECHRAU I'R DIWEDD**

I FYNY'R AFON

### DALGYLCHOEDD A DYFROEDD FFYNHONNELL IACH



Mae afonydd, cronfeydd dŵr, priddoedd a dalgylchoedd ehangach yn cael eu rheoli'n gynyddol yn rhan o'r system ddŵr ei hun. Gan weithio gyda ffermwyr, cymunedau a phartneriaid amgylcheddol, mae problemau yn cael eu hatal wrth eu gwraidd ac mae gwydnwch cyflenwadau dŵr a'r amgylchedd naturiol yn cael ei gryfhau. Mae ffynonellau dŵr gwydn yn erbyn newid hinsawdd ar gael yn ystod sychder eithafol.

### RHWYDWEITHIAU A GWEITHREDIADAU DEALLUS A GWYDN



Mae data, awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial yn galluogi dull mwy rhagfynegol o reoli asedau a rhwydweithiau. Mae ein parthau cyflenwi dŵr wedi gwella cysylltedd, gan ganiatáu i ni symud dŵr yn fwy hyblyg. Nodir problemau yn gynharach, mae cynnal a chadw yn cael ei dargedu yn gynyddol, a chefnogir penderfyniadau gweithredu gan wybodaeth amser real, gan wella dibynadwyedd a lleihau costau.

### CARTREFI A CHYMUNEDAU SY'N EFFEITHLON O RAN DŴR



Mae mesuryddion clyfar, dyfeisiau cysylltiedig a gwybodaeth well yn helpu cwsmeriaid i reoli defnydd o ddŵr yn fwy effeithlon. Mae cartrefi a chymunedau newydd yn ymgorffori ailddefnyddio dŵr llwyd, cynaeafu dŵr glaw a thechnolegau effeithlon o ran dŵr eraill yn gynyddol, gan leihau galw a chryfhau gwydnwch

I LAWR YR AFON

CANLYNIAD 2

# Amgylchedd dŵr iach

Gwasanaethau dŵr gwastraff dibynadwy, afonydd ac ecosystemau dyfrol iach, dyfroedd ymdrochi glân, amgylchedd naturiol cynaliadwy yn cefnogi cymunedau sy'n ffynnu.

CANLYNIAD 2

# Amgylchedd — Ein hamcanion strategol a pham maent yn bwysig

Mae gwasanaethau dŵr gwastraff yn galluogi cymunedau i dyfu a ffynnu tra'n diogelu iechyd y cyhoedd ac yn osgoi niwed i'r amgylchedd naturiol.

## AMCANION

- Gwasanaethau dŵr gwastraff perfformiad uchel.
- Iechyd afonydd da a dyfroedd ymdrochi glân.
- Amgylchedd dŵr croyw a morol sy'n ffynnu.
- Amgylchedd cynaliadwy a bioamrywiol.

## PAM MAE'N BWYSIG

Mae cwsmeriaid yn disgwyl i ni reoli eu dŵr gwastraff heb achosi niwed i'r amgylchedd ehangach. Mae llawer yn ddig ac yn bryderus am lygredd a chyflwr rhai o'n hafonydd a'n traethau.

Ein cyfrifoldeb ni yw casglu a thrin dŵr gwastraff, gan ei ddychwelyd yn ddiogel i'r amgylchedd. Pan fydd hyn yn mynd o'i le, mae'n tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd a boddhad cwsmeriaid, ac yr un mor bwysig, gallai niweidio'r amgylchedd, yn ddifrifol o bosibl.

Rydym hefyd yn chwarae rhan bwysig ochr yn ochr ag eraill i ddiogelu iechyd afonydd a morol, ac i wneud yn siŵr bod traethau a dyfroedd ymdrochi eraill yn aros yn lân. Gyda'n gilydd, rydym yn cynnal ecosystemau iach, ac yn amddiffyn amgylchedd sy'n ffynnu er budd cymunedau, busnesau ac ymwelwyr.

## DISGWYLIADAU CWSMERIAID AR GYFER 2055

Yn 2055, bydd gan gwsmeriaid hyder bod afonydd, llynnoedd, traethau a dyfroedd arfordirol yn cael eu hamddiffyn a'u gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddant yn gallu mwynhau ac elwa o'r amgylchedd dŵr, gan wybod bod sefydliadau yn cydweithio i sicrhau bod cyn lleied o lygredd â phosibl.

Bydd afonydd a dyfroedd ymdrochi yn lanach, bydd ecosystemau yn iachach, a bydd gwelliant amgylcheddol yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth eglur o gynnydd, ag adrodd tryloyw drwyddi draw. Bydd cynefinoedd dyfrol yn ffynnu ac yn gallu cynnal cymunedau iach.

Bydd gorlifoedd storm o'r system garthffosiaeth yn digwydd ar ôl glaw trwm yn unig, fel y bwriadwyd. Bydd cwsmeriaid yn deall eu diben ac yn hyderus nad yw eu defnydd yn achosi unrhyw niwed sylweddol i'r amgylchedd na pherygl i iechyd y cyhoedd.

Bydd yr amgylchedd dŵr yn fwy gwydn yn erbyn pwysau yn y dyfodol, gan gynnwys newid hinsawdd, twf poblogaeth a phatrymau newidiol o ddefnydd tir. Trwy gydweithredu a stiwardiaeth hirdymor, bydd rhanddeiliaid wedi creu amgylchedd iachach a mwy hyblyg sy'n cynnal cymunedau, bywyd gwyllt a chenedlaethau'r dyfodol.

## MESURAU ALLWEDDOL O LWYDDIANT

**Afonydd a nentydd glanach**
Mwy o afonydd yn sicrhau iechyd ecolegol da.

**Traethau a dyfroedd ymdrochi glan**
Dŵr ymdrochi yn cyflawni safonau ansawdd uchel.

**Llai o effaith amgylcheddol**
Cyn lleied â phosibl o ddigwyddiadau llygredd a niwed amgylcheddol.

**Ecosystemau iachach**
Gwell ansawdd cynefin a bioamrywiaeth.

**Mwy o hyder ymhlith y cyhoedd**
Mwy o hyder ymhlith cwsmeriaid bod yr amgylchedd dŵr yn gwella.

CANLYNIAD 2

# Amgylchedd — Gwella heddiw, diogelu yfory

Mae diogelu'r amgylchedd yn cychwyn gyda mynd i'r afael â'r meysydd lle'r ydym yn methu ar hyn o bryd, ond mae ein huchelgais yn mynd ymhellach na hynny. Mae'n rhaid i ni wella perfformiad amgylcheddol heddiw a buddsoddi ar gyfer dyfodol sy'n darparu afonydd iachach, dyfroedd ymdrochi glanach ac ecosystemau mwy gwydn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

1

## DARPARU GWASANAETHAU CRAIDD

**Canolbwyntio ar yr hanfodion**

- Cynnal ac ailwampio seilwaith dŵr gwastraff.
- Gwella perfformiad gweithredu a chydymffurfiad.
- Lleihau'r risg o asedau'n methu â chanlyniadau amgylcheddol arwyddocaol.

**Lleihau llygredd a niwed amgylcheddol**

- Lleihau niwed amgylcheddol wedi'i achosi gan orlifoedd storm.
- Sicrhau cyn lleied â phosibl o ddigwyddiadau llygredd eraill.
- Diogelu iechyd y cyhoedd mewn dyfroedd ymdrochi.

2

## SICRHAU CYNALIADWYEDD HIRDYMOR

- Gwella capasiti'r rhwydwaith dŵr gwastraff a'i wydnwch yn wyneb newid hinsawdd.
- Mynd i'r afael â halogyddion newydd a risgiau amgylcheddol eraill.
- Cefnogi cynefinoedd iachach a bioamrywiaeth.

3

## SICRHAU SAFONAU UCHEL

- Cyflawni gwelliannau amgylcheddol y gall cwsmeriaid eu gweld a'u gwerthfawrogi.
- Cyfrannu at safonau ansawdd dŵr uwch lle maent yn sicrhau buddion ystyrlon, yn fforddiadwy ac yn cael eu cefnogi gan gwsmeriaid.
- Cefnogi afonydd, dyfroedd ymdrochi, cynefinoedd ac ecosystemau iachach.

Mae diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr yn cychwyn gyda chael yr hanfodion yn iawn. Mae hwn yn faes lle'r ydym (ar adeg ysgrifennu hyn) yn methu â bodloni disgwyliadau'r cyhoedd, gofynion rheoliadau a'n safonau ein hunain, a lle mae'n rhaid i welliant fod yn flaenoriaeth ar unwaith.

Mae cynnal ac ailwampio seilwaith dŵr gwastraff, gwella perfformiad gweithredu a lleihau digwyddiadau llygredd yn sylfeini hanfodol ar gyfer afonydd, traethau a dyfroedd arfordirol iachach. Fodd bynnag, ni fydd cynnal seilwaith presennol yn unig yn ddigon.

Bydd angen i ni wella ein systemau dŵr gwastraff seilwaith amgylcheddol ehangach yn sylweddol er mwyn mynd i'r afael â niwed o orlifoedd storm, i wella gwydnwch yn wyneb newid hinsawdd ac i gefnogi gwell canlyniadau amgylcheddol. Bydd buddsoddiad cyfalaf yn cynnig llawer mwy o fuddion am gost is os caiff ei ddarparu mewn ffordd ystyriol o natur, seiliedig ar ddalgylch, a chydgysylltiedig. Bydd hyn yn gofyn am newid i reoliadau ochr yn ochr â chynllunio hirdymor.

Bydd twf poblogaeth, newid hinsawdd, newid i ddefnydd tir a halogyddion newydd yn creu pwysau ychwanegol ar yr amgylchedd dros y degawdau nesaf. Ochr yn ochr â chynnal a chadw ac ailwampio, bydd angen buddsoddiad wedi'i dargedu arnom i ddiwallu anghenion capasiti, i fynd i'r afael â risgiau hirdymor ac i gefnogi cynefinoedd ac ecosystemau iachach.

CANLYNIAD 2

# Amgylchedd – Cymryd cyfrifoldeb a gweithio gydag eraill

Mae gan Dŵr Cymru prif gyfrifoldeb am ddiogelu a gwella'r amgylchedd dŵr, ond ni allwn gyflawni'r holl ganlyniadau y mae cwsmeriaid a chymunedau eu heisiau drwy ein gweithredoedd ni yn unig. Mae gwelliant amgylcheddol sy'n para yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n cael effaith ar afonydd, llynnoedd a dyfroedd arfordirol i chwarae eu rhan, ochr yn ochr â buddsoddiad wedi'i dargedu a chydweithredu effeithiol.

## Cymryd cyfrifoldeb am yr hyn yr ydym yn ei reoli

Mae gennym gyfrifoldeb uniongyrchol i leihau effaith amgylcheddol ein gweithrediadau a gwella perfformiad ein gwasanaethau dŵr gwastraff. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw ac ailwampio asedau, gwella perfformiad gweithredu, lleihau digwyddiadau llygredd a darparu buddsoddiad sy'n diogelu afonydd, dyfroedd ymdrochi ac ecosystemau. Lle mae effeithiau amgylchedd yn deillio o'n gweithgareddau, rydym yn cymryd y cyfrifoldeb am wella perfformiad ac adennill hyder y cyhoedd.

## Ffurfio partneriaethau gydag eraill

Er ein bod yn chwarae rhan sylweddol na ellir ei gwadu, ni all Dŵr Cymru sicrhau afonydd ac ecosystemau iachach ar ei ben ei hun. Hyd yn oed pe baem yn cael gwared ar yr holl effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o'n gweithrediadau ein hunain, byddai llawer o afonydd yn parhau i wynebu pwysau o ffynonellau eraill, gan gynnwys amaethyddiaeth, trafnidiaeth, diwydiant a datblygiad trefol.

Mae hyn yn golygu bod gwelliant amgylcheddol sy'n para yn dibynnu ar weithredu ar y cyd. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, sefydliadau amgylcheddol, datblygwyr, ymchwilwyr, rheolwyr tir a chymunedau i wella canlyniadau ar raddfa dalgylch a thirwedd. Pan fo'n bosibl, byddwn yn chwilio am ddulliau ystyriol o natur a chydgysylltiedig sy'n sicrhau manteision lluosog, gan gynnwys ansawdd dŵr gwell, cynefinoedd iachach, mwy o wydnwch yn erbyn newid hinsawdd a gwell gwerth am arian i gwsmeriaid. Trwy gyfuno buddsoddiad, arbenigedd a gwybodaeth leol, gallwn yn aml gyflawni mwy na fyddai'n bosibl trwy atebion seilwaith traddodiadol.

## Dylanwadu ar y system ehangach

Mae iechyd afonydd, llynnoedd a dyfroedd arfordirol yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir ar draws cymdeithas. Mae amaethyddiaeth, datblygiad, diwydiant, ymddygiad cwsmeriaid a pholisi cyhoeddus i gyd yn chwarae rhan bwysig. Byddwn yn gweithio gyda llywodraethau, rheoleiddwyr a sectorau eraill i annog dulliau sy'n atal problemau wrth eu gwraidd, gan gynnwys lleihau llygredd, mynd i'r afael â halogyddion newydd a diogelu amgylcheddau sensitif.

Byddwn yn eirioli dros fframweithiau polisi, rheoleiddio a chyllid sy'n cefnogi gwell canlyniadau amgylcheddol am gost fforddiadwy, gan helpu i sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei dargedu lle mae'n sicrhau'r budd cyffredinol mwyaf i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd.

CANLYNIAD 2

## ENGHREIFFTIAU O GYFRIFOLDEB AR Y CYD

Enghreifftiau o le mae cyfrifoldebau ac ysgogiadau wedi'u lleoli ar draws sefydliadau.

| Pwy? | Pa her ydym ni'n ceisio ei datrys? | Sut allwn ni weithio gyda'n gilydd? |
|---|---|---|
| **Awdurdodau lleol** | Dŵr wyneb, llifogydd carthffosydd a chapasiti | Draenio integredig, systemau draenio cynaliadwy (SDCau), a chynllunio hirdymor |
| **Amaethyddiaeth a thrafnidiaeth** | Llygredd gwasgaredig | Partneriaeth, tystiolaeth a newid i reolaeth tir |
| **Cynllunio** | Datblygiad, capasiti a chreu lleoedd hirdymor | Dylunio effeithlon o ran dŵr, draenio cynaliadwy a chynllunio integredig |
| **Rheoleiddwyr** | Halogyddion newydd | Tystiolaeth, rheoleiddio ac atal i fyny'r afon |
| **Cymunedau a dinasyddion** | Camddefnyddio carthffosydd, camgysylltiadau, stiwardiaeth amgylcheddol | Newid ymddygiad, addysg a gweithredu lleol |
| **Rheolwyr tir** | Llifogydd, adfer natur a gwydnwch dalgylchoedd | Partneriaethau dalgylch |

CANLYNIAD 2

# Amgylchedd — Trawsnewid hirdymor

Dros amser, mae diogelu a gwella'r amgylchedd yn debygol o ddibynnu llai ar ymdrin â phroblemau ar ôl iddynt ddigwydd a mwy ar eu hatal trwy dechnoleg fwy clyfar, dalgylchoedd iachach a dulliau carbon is, mwy cynaliadwy o reoli amgylcheddol.

### NATUR

O drin pen pibell i weithio gyda systemau naturiol.

— Trin seiliedig ar natur ac atebion dalgylch yn dod yn gyffredin.

— Gwlyptiroedd, rheoli llifogydd naturiol ac adfer cynefinoedd yn cynnig manteision lluosog.

— Problemau amgylcheddol yn cael eu hatal yn gynyddol wrth eu gwraidd yn hytrach na chael sylw ar ôl iddynt ddigwydd.

### CYLCHOLRWYDD

O drin dwys o ran adnoddau i systemau cylchol carbon isel.

— Dwysedd ynni a charbon is.

— Adfer mwy o adnoddau o ddŵr gwastraff.

— Technolegau ynni adnewyddadwy a thrin carbon isel yn dod yn arferol.

— Dŵr gwastraff yn cael ei ystyried yn gynyddol fel ffynhonnell o ddŵr, ynni a deunyddiau yn hytrach na rhywbeth i'w drin ac i gael gwared arno yn unig.

### GWEITHREDIADAU DEALLUS

O fonitro cyfnodol i reoli amgylcheddol amser real.

— Monitro parhaus o rwydweithiau, afonydd ac asedau.

— Synwyryddion clyfar, deallusrwydd artiffisial a dadansoddeg ragfynegol yn nodi risgiau'n gynharach.

— Data amgylcheddol agored yn cynnig mwy o dryloywder ac atebolrwydd.

— Penderfyniadau buddsoddi a gweithredu yn cael eu llywio'n gynyddol gan dystiolaeth amser real.

Bydd cyflawni'r newidiadau hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol dros nifer o ddegawdau, gan Dŵr Cymru a chan eraill ar draws y system amgylcheddol ehangach. Fodd bynnag, mae gan nifer o'r dulliau hyn y potensial i leihau costau dros yr hirdymor trwy atal problemau wrth eu gwraidd, gwella gwydnwch a sicrhau manteision lluosog o un ymyriad. Bydd gwireddu'r cyfle hwn yn gofyn am bartneriaethau cryfach, sgiliau a thechnolegau newydd, a fframweithiau rheoleiddio sy'n cefnogi arloesedd, cydweithredu ac atebion system gyfan. Trwy gyfuno buddsoddiad mewn seilwaith â buddsoddiad mewn natur, data a ffyrdd newydd o weithio, gallwn gyflawni canlyniadau amgylcheddol gwell yn fwy effeithiol a fforddiadwy na fyddai'n bosibl trwy ddulliau traddodiadol yn unig.

CANLYNIAD 3

# Cwsmeriaid bodlon a chymunedau sy'n ffynnu

Gwasanaethau cwsmeriaid effeithiol, ar gyfer aelwydydd, busnesau a datblygwyr, gan gynorthwyo cwsmeriaid agored i niwed, a biliau fforddiadwy i bawb.

CANLYNIAD 3

# Cwsmeriaid a chymunedau — Ein hamcanion strategol a pham maent yn bwysig

Mae cwsmeriaid yn disgwyl gallu cysylltu â ni yn gyflym ac yn rhwydd. Mae angen datrys problemau ac ateb cwestiynau yn effeithiol fel y gallant fwrw ymlaen â'u bywydau. Maent eisiau deall yr hyn y maent yn ei dalu trwy eu bil a pham, a chael cymorth pan fyddant yn cael trafferth yn talu.

## AMCANION

- Cwsmeriaid bodlon, bob dydd a phan fydd pethau'n mynd o'i le.
- Sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu a methiannau gwasanaeth.
- Galluogi busnesau sy'n ffynnu ac economi fywiog.
- Gwasanaethau fforddiadwy a chynhwysol, â chymorth i'r rhai sydd ei angen.
- Dim gwahaniaethau perfformiad mawr ar draws rhanbarthau.

## PAM MAE'N BWYSIG

Mae gwasanaethau dŵr yn cefnogi bron i bob agwedd ar fywyd bob dydd. Pan fydd gwasanaethau yn gweithio'n dda, anaml y mae pobl yn meddwl amdanynt. Pan fyddant yn methu, gall yr effaith ar gartrefi, cymunedau a busnesau fod yn sylweddol. Mae cwsmeriaid yn disgwyl gwasanaethau dibynadwy, ymatebol a hawdd eu defnyddio, wedi'u darparu gan sefydliad y gallant ymddiried ynddo. Maent hefyd yn disgwyl i ni gyfathrebu yn agored, ymateb yn effeithiol pan fydd pethau'n mynd o'i le a dangos ein bod yn gweithredu i sicrhau eu budd pennaf. Mae ymchwil cwsmeriaid wedi tynnu sylw cyson at bwysigrwydd fforddiadwyedd, tryloywder a thystiolaeth weledol bod buddsoddiad yn sicrhau manteision gwirioneddol.

Y tu hwnt i'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn uniongyrchol, mae Dŵr Cymru yn chwarae rhan bwysig i gynorthwyo cymunedau a galluogi twf economaidd. Mae gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff dibynadwy yn hanfodol ar gyfer tai, cyflogaeth, buddsoddiad a ffyniant ar draws ein hardal weithredu. Wrth i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol, mae'n rhaid i ni gydbwyso gwasanaeth gwella a buddsoddiad hirdymor gyda'r angen i gadw biliau yn fforddiadwy, i gynorthwyo cwsmeriaid agored i niwed ac i sicrhau bod buddion ein gwasanaethau yn cael eu rhannu'n deg ar draws y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

## DISGWYLIADAU AR GYFER 2055

Erbyn 2055, profiad cwsmeriaid o'n gwasanaethau i gwsmeriaid fydd eu bod yn ddibynadwy, yn ymatebol ac yn hawdd eu defnyddio. Bydd y rhan fwyaf o achosion o ryngweithio â Dŵr Cymru yn syml, wedi'u personoli ac yn cael eu datrys yn gyflym, â chwsmeriaid yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cymorth a gwasanaethau yn y ffyrdd sydd orau iddyn nhw. Pan fydd pethau'n mynd o'i le, bydd cwsmeriaid yn disgwyl cyfathrebu agored, gweithredu cyflym a hyder bod gwersi'n cael eu dysgu.

Bydd cwsmeriaid hefyd yn disgwyl perthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a thryloywder. Byddant yn gallu gweld sut mae eu harian yn cael ei fuddsoddi, deall y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni a bod yn hyderus bod penderfyniadau yn cael eu gwneud er budd hirdymor cwsmeriaid, cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.

Ar yr un pryd, bydd gwasanaethau dŵr yn cefnogi twf, ffyniant ac ansawdd bywyd ar draws ein hardal weithredu. Mae biliau yn dal i gynnig gwerth da am arian, â chymorth ariannol ar gael i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Bydd cwsmeriaid yn barnu llwyddiant yn gynyddol nid yn unig ar sail y gwasanaethau y maent yn eu derbyn, ond ar ba un a yw Dŵr Cymru yn gweithredu fel stiward dibynadwy o adnoddau cyhoeddus a chyfrannwr cadarnhaol at gymunedau sy'n ffynnu.

## MESURAU ALLWEDDOL O LWYDDIANT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Lefelau o ymddiriedaeth a hyder cwsmeriaid. | Llai o gwsmeriaid yn dioddef caledi ariannol oherwydd biliau dŵr. | Datrys problemau cwsmeriaid yn gynt ac yn haws. | Gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff dibynadwy sy'n cefnogi tai, swyddi a thwf. | Mwy o ddealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o'r model nid er elw a sut y defnyddir arian cwsmeriaid. |

CANLYNIAD 3

# Cwsmeriaid a chymunedau — Adennill ymddiriedaeth heddiw, hyderus am yfory

Mae adennill ymddiriedaeth yn cychwyn gyda darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol bob dydd, bod yn dryloyw ac yn deg yn ein penderfyniadau, a darparu cymorth pan fydd cwsmeriaid ei angen fwyaf. Gan edrych i'r dyfodol, mae'n rhaid hefyd i ni ymateb i ddisgwyliadau sy'n newid, croesawu technolegau newydd a pharhau i chwarae rhan gadarnhaol o ran cefnogi cymunedau sy'n ffynnu.

1

### DARPARU GWASANAETHAU CRAIDD

- Gwasanaeth cwsmeriaid gwych pan fydd pethau'n mynd o'i le.
- Gwasanaethau bilio a chyfrifon eglur.
- Diwallu anghenion cwsmeriaid agored i niwed.
- Cefnogi twf economaidd
- Gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel.
- Darparu data a gwybodaeth agored a thryloyw i gwsmeriaid.

2

### SICRHAU CYNALIADWYEDD HIRDYMOR

- Ymateb i ddisgwyliadau ac anghenion cwsmeriaid sy'n esblygu .
- Buddsoddi mewn technoleg, gallu a seiberddiogelwch.
- Datblygu mewnwelediad gan gwsmeriaid i hysbysu gwasanaethau a phenderfyniadau yn y dyfodol.
- Datblygu cadwyni cyflenwi lleol.

3

### SICRHAU SAFONAU UWCH

- Yn adnabyddus am ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol bob amser.
- Y sgoriau ymddiriedaeth a chwynion gorau yn y diwydiant.
- Cyfraniad cadarnhaol cydnabyddedig at lesiant economaidd a chymdeithasol gwell ar draws ein hardal.

Mae ennill ymddiriedaeth ein cwsmeriaid yn cychwyn gyda chael yr hanfodion yn iawn. Mae cwsmeriaid yn disgwyl gwasanaeth cwsmeriaid gwych, biliau cywir, gwybodaeth ddibynadwy, cymorth ymatebol a gweithredu effeithiol pan fydd pethau'n mynd o'i le. Y tu hwnt i'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn uniongyrchol i gwsmeriaid, mae ein gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff yn cynorthwyo cymunedau trwy alluogi tai, cyflogaeth a thwf economaidd ar draws ein hardal weithredu.

Mae cynnal y gwasanaethau craidd hyn, tra'n darparu cymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen fwyaf, yn hanfodol i adennill ymddiriedaeth a hyder.

Yn y tymor hwy, bydd disgwyliadau cwsmeriaid yn parhau i esblygu. Mae pobl yn disgwyl yn gynyddol gwasanaethau sy'n syml cael gafael arnynt, yn hawdd eu deall ac wedi'u teilwra i'w hanghenion. Bydd yn rhaid i ni fuddsoddi mewn technoleg, gwybodaeth cwsmeriaid, seiberddiogelwch a gallu sefydliadol i sicrhau y gallwn barhau i fodloni'r disgwyliadau hyn mewn ffordd ddiogel ac effeithlon.

Rydym yn ystyried ein hunain fel 'cwmni angor' yn economi a chymdeithas Cymru. Wrth i Gymru lywio trywydd i ddyfodol gwell, byddwn yn cymryd rhan ar bob cam, gan gefnogi twf, amgylchedd cryfach, cymdeithas wydn, a diwylliant Cymreig bywiog ac unigryw.

CANLYNIAD 3

# Cwsmeriaid a chymunedau — Cymryd cyfrifoldeb a gweithio gydag eraill

Mae cyflawni canlyniadau gwell i gwsmeriaid a chymunedau yn gofyn am weithredu ar sawl lefel. Mae rhai gwelliannau yn dibynnu yn uniongyrchol ar y dewisiadau yr ydym yn eu gwneud a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, tra bydd eraill yn cael eu cyflawni dim ond trwy bartneriaethau a diwygiadau i'r fframwaith rheoleiddio ac economaidd ehangach.

## Cymryd cyfrifoldeb am yr hyn yr ydym yn ei reoli

Ein cyfrifoldeb ni yw darparu'r gwasanaethau y mae cwsmeriaid yn dibynnu arnynt bob dydd, ac ymateb iddynt yn effeithiol pan fydd pethau'n mynd o'i le neu pan fydd angen cymorth arnynt. Gallwn hefyd sicrhau ein bod yn cynnig mynediad at yr wybodaeth y mae cwsmeriaid ei heisiau ac yn disgwyl ei gweld pan fydd ei hangen arnynt, gan gynnwys deall eu bil a'r hyn y maent yn talu amdano. Dylem sicrhau bod cwsmeriaid yn deall yr hyn yr ydym yn ei wneud yn eu cymunedau, a chyflawni gwaith cyfalaf mewn ffordd sy'n sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl.

## Ffurfio partneriaethau gydag eraill

Byddwn yn gweithio gydag elusennau, asiantaethau cyngor, awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol i nodi a chynorthwyo cwsmeriaid bregus neu sydd angen cymorth ychwanegol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda darparwyr technoleg a phartneriaid i gyflwyno offer a gwasanaethau newydd, gan helpu cwsmeriaid i reoli eu defnydd o ddŵr, i gael mynediad at gymorth ac i ryngweithio â ni yn haws.

## Dylanwadu ar y system ehangach

Mae biliau cwsmeriaid yn cael eu dylanwadu gan benderfyniadau economaidd, ariannol a rheoleiddio ehangach. Byddwn yn gweithio gyda llywodraethau, rheoleiddwyr a buddsoddwyr i gefnogi fframwaith sefydlog yr ymddiriedir ynddo sy'n galluogi buddsoddiad hirdymor am y gost leiaf posibl i gwsmeriaid. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â'r bolisi prisiau, fforddiadwyedd a threfniadau cymorth i gwsmeriaid i sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i fod yn deg ac yn hygyrch.

CANLYNIAD 3

# Cwsmeriaid a chymunedau — Trawsnewid hirdymor

Dros amser, mae gwasanaeth cwsmeriaid yn debygol o ddod yn fwy rhagweithiol, wedi'i bersonoli mwy ac wedi'i alluogi mwy gan dechnoleg. Bydd defnydd gwell o ddata, awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial yn ein helpu i ragweld anghenion cwsmeriaid, i nodi problemau yn gynharach ac i ddarparu cymorth cyn i broblemau waethygu.

Ar yr un pryd, bydd ymddiriedaeth yn dibynnu'n gynyddol ar dryloywder, seiber-wydnwch a'r defnydd cyfrifol o dechnoleg. Bydd angen i ni ddiogelu data cwsmeriaid, amddiffyn rhag seiberfygythiadau a bygythiadau cysylltiedig â deallusrwydd artiffisial sy'n dod i'r amlwg, a sicrhau bod perfformiad, buddsoddiad a'r broses gwneud penderfyniadau yn fwy amlwg.

Y tu hwnt i'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn uniongyrchol, bydd Dŵr Cymru yn parhau i gyflawni swyddogaeth fel sefydliad angor yn ein cymunedau, gan gefnogi sgiliau, llesiant, gwelliant amgylcheddol a ffyniant economaidd. Trwy gyfuno gwasanaeth rhagorol â chyfraniad eang at gymdeithas, gallwn gryfhau ymddiriedaeth a chreu buddion sy'n para i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

05

# Egwyddorion cyflawni a galluogwyr

Yr egwyddorion sy'n llywio ein dewisiadau, a'r galluoedd a'r amodau sydd eu hangen i droi uchelgais yn gyflawniad parhaus.

# Ein hegwyddorion cyflawni

Bydd yr egwyddorion hyn, yn seiliedig ar adborth cwsmeriaid, yn llywio sut rydym yn gwneud penderfyniadau, yn blaenoriaethu buddsoddiad ac atebion dylunio. Bwriedir iddynt herio cyflawni ymatebol a thybiaethau diofyn, gan sicrhau bod penderfyniadau yn mynd i'r afael â gwraidd problemau, yn cynnig gwerth oes gyfan, yn adlewyrchu blaenoriaethau cwsmeriaid, yn trin gwahanol genedlaethau yn deg ac yn ystyried lle gall partneriaeth neu arweinyddiaeth weithredol arwain at well canlyniad.

1

## Gwnewch benderfyniadau wedi'u hysbysu gan gwsmeriaid

Gwrandewch drwy gydol y broses gynllunio a chyflawni, nid wrth lunio'r Strategaeth yn unig. Defnyddiwch flaenoriaethau cwsmeriaid, fforddiadwyedd a pharodrwydd i fuddsoddi ochr yn ochr â dyletswyddau, tystiolaeth risg ac anghenion y dyfodol.

2

## Cynigwch werth gorau oes gyfan

Dewiswch yr ateb sy'n sicrhau'r cyfuniad gorau o ganlyniadau, gwydnwch, effeithlonrwydd a chost dros ei oes gyfan. Cadwch yn niwtral rhwng atebion cyfalaf a gweithredu. Ymgorfforwch brisiad o fuddion ehangach, gan gynnwys cyfalaf naturiol a chymdeithasol, cyn belled â phosibl.

3

## Gweithredwch yn gynnar ac ewch i'r afael â gwraidd problemau

Symudwch o ymyriadau ymatebol ailadroddus tuag at weithredu ataliol rhagweithiol. Defnyddiwch dystiolaeth ar gyflwr, perfformiad a risg asedau i gryfhau gwydnwch a lleihau costau hirdymor y gellid eu hosgoi.

4

## Byddwch yn deg ar draws cwsmeriaid a chenedlaethau

Ystyriwch sut mae costau, buddion a risgiau yn cael eu rhannu rhwng cwsmeriaid, cymunedau, lleoedd a chenedlaethau. Cydbwyswch fforddiadwyedd heddiw gyda'r canlyniadau sy'n cael eu trosglwyddo i'r rhai sy'n dod ar ein holau.

5

## Byddwch yn gydweithredol ac yn barod i arwain

Peidiwch â blaenoriaethu buddsoddiad y telir amdano trwy filiau cwsmeriaid pan fo ateb mwy effeithiol ar gael os caiff ei ddarparu gan (neu gyda) drydydd parti. Yn hytrach, ysgogwch newid i reoliadau, cymhellion a chydweithrediad ag eraill i alluogi'r atebion hynny.

6

## Diwallwch anghenion gwahaniaethol ein rhanbarthau

Defnyddiwch lens rhanbarthol wrth ystyried ein blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau i wasanaethau. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y gallem uwchgyfeirio mynd i'r afael â phroblem perfformiad mewn un rhanbarth, hyd yn oed pan fo'n perfformiad cyffredinol (cyfartalog) ar y broblem honno yn foddhaol.

# Galluogwyr — Yr hyn sydd ei angen arnom er mwyn cyflawni ein canlyniadau strategol

Bydd cyflawni'r Strategaeth yn gofyn am fwy na mwy o fuddsoddiad. Mae'n rhaid i ni gryfhau'r bobl, yr asedau, asedau a thechnoleg sy'n sail i wasanaethau dibynadwy, penderfyniadau effeithiol a chyflawniad parhaus.

## TRI GALLUOGYDD MEWNOL CRAIDD

1

### POBL

**Arweinyddiaeth, sgiliau a diwylliant**

Datblygu diwylliant o atebolrwydd a chyflawni, wedi'i gefnogi gan arweinyddiaeth gref, cyfrifoldeb eglur a'r sgiliau sydd eu hangen i gynllunio, blaenoriaethu a chyflawni yn effeithiol. Ein pobl yw sylfaen gwella perfformiad a llwyddiant hirdymor.

2

### ASEDAU

**Stiwardiaeth asedau a buddsoddiad**

Gwella ein dealltwriaeth o gyflwr, perfformiad a risg asedau. Cryfhau gwaith cynnal a chadw ac ailwampio a rheolaeth asedau hirdymor. Buddsoddi mewn asedau newydd yn ôl yr angen i fodloni gofynion twf, disodli a gwydnwch. Ar y cyfan, sicrhau bod asedau yn darparu gwasanaethau dibynadwy heddiw, ac yn aros yn wydn, yn gynaliadwy ac yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

3

### SYSTEMAU DIGIDOL

**Data, gwybodaeth a phenderfyniadau cysylltiedig**

Creu systemau integredig, data dibynadwy a thechnoleg fodern sy'n cynnig golwg fwy eglur ar anghenion cwsmeriaid, asedau, buddsoddiad, perfformiad a risg. Defnyddio offer digidol, awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial i gefnogi penderfyniadau gwell a darpariaeth fwy effeithiol.

## AMODAU GALLUOGI EHANGACH

### DIWYGIO RHEOLIADAU A PHOLISI

Fframweithiau a chymhellion hirdymor sy'n cefnogi buddsoddiad ataliol, arloesedd a chyflawniad effeithiol.

### CYNLLUNIO SYSTEM GYFAN A DALGYLCH

Cynllunio cydgysylltiedig ar draws sefydliadau, sectorau a lleoedd fel bod cyfrifoldebau, dibyniaethau a buddsoddiad wedi'u cysoni.

### FFRAMWAITH CYDLYNOL Y GELLIR BUDDSODDI YNDDO

Rheoleiddio eglur a sefydlog sy'n cynnal hyder buddsoddwyr ac yn caniatáu i gyllid hirdymor gael ei godi am gost effeithlon.

**Nid yw pobl, asedau a systemau yn ddibenion ynddynt eu hunain. Mae eu gwerth yn deillio o alluogi gwasanaethau dibynadwy, penderfyniadau cryfach a chanlyniadau gwell i gwsmeriaid a'r amgylchedd.**

# Sut mae galluogwyr cryfach yn newid cyflawniad

Bydd cryfhau ein diwylliant, ein gwybodaeth, ein harweinyddiaeth a'n gallu i gyflawni yn newid sut rydym yn gweithredu. Nid yw hwn yn ddiben ynddo'i hun, ond mae'n bwysig gan y bydd yn galluogi cyflawniad mwy effeithiol o ganlyniadau mewn cyfnod pan fo cyfyngiadau parhaus ar faint a chyflymder buddsoddiad.

## GALLUOGWYR MEWNOL CRYFACH

- **ASEDAU A CHYNLLUNIO**
- **POBL A DIWYLLIANT**
- **SYSTEMAU A THECHNOLEG**

## FFORDD WELL O WEITHREDU

- **Gweld** risgiau, cyflwr asedau a pherfformiad yn fwy eglur; deall safbwyntiau cwsmeriaid
- **Gweithredu** yn gynharach a mynd i'r afael â gwraidd problemau cyn i broblemau waethygu
- **Dewis** atebion integredig gan ddefnyddio tystiolaeth well a gwerth oes gyfan
- **Cyflawni** buddsoddiad a newid gweithredol yn fwy cyson
- **Dysgu** o berfformiad ac addasu cynlluniau wrth i dystiolaeth newid

## CANLYNIADAU CRYFACH I GWSMERIAID A'R AMGYLCHEDD

- **DŴR DIOGEL, O ANSAWDD UCHEL A DIBYNADWY**
- **AMGYLCHEDD DŴR IACH**
- **CWSMERIAID BODLON A CHYMUNEDAU SY'N FFYNNU**

06

# O Strategaeth i gyflawni

Sut fydd y Strategaeth yn cael ei throi'n gynlluniau hirdymor, yn ymrwymiadau wedi'u hariannu ac yn gyflawniad tryloyw.

# Troi Strategaeth yn gyflawni

Mae'r Strategaeth yn pennu cyfeiriad. Mae'r Cynllun Cyfalaf a Gweithredol Hirdymor yn datblygu'r llwybrau. Mae'r Adolygiad Prisiau (PR29) rheoleiddio nesaf yn ariannu'r cam nesaf o gyflawni.

### STRATEGAETH

Canlyniadau, cyfeiriad ac egwyddorion cyflawni.

2030–2055

### CYNLLUN CYFALAF A GWEITHREDOL HIRDYMOR

Yn gorfodi cyfyngiadau fforddiadwyedd, gallu i gyflawni a gallu i gyllido. Yn ystyried dewisiadau a dilyniant. Yn datblygu llwybrau gwariant, perfformiad a biliau cwsmeriaid.

2030–2055

### ADOLYGIAD PRISIAU RHEOLIADOL NESAF

Yn ceisio cymeradwyaeth gan y rheoleiddiwr economaidd ar gyfer gwariant a refeniw cynllun busnes pum mlynedd. Yn pennu cymhellion ac yn neilltuo risgiau. Yn dwyn y cwmni i gyfrif am gyflawniad a pherfformiad.

2030–2035


### CYFLAWNI

Cynlluniau gweithredu i ddarparu buddsoddiad a thrawsnewid gweithredol i gynhyrchu canlyniadau gwasanaeth. Yn adrodd ar gynnydd yn erbyn ymrwymiadau.

PARHAUS

# Parhau i gynnwys pobl ac adrodd ar gynnydd

Bydd ymgysylltu yn parhau y tu hwnt i'r cyhoeddiad, â chylchoedd adborth eglur a thystiolaeth hygyrch o gyflawni.



**ADNEWYDDU**

Ymgysylltu â chwsmeriaid yn barhaus i wneud yn siŵr ein bod yn parhau i fod yn ymatebol i'n cwsmeriaid, ac adnewyddu ein cynlluniau yn unol â hynny.

**GWRANDO**

Deall safbwyntiau cwsmeriaid, cymunedau, cydweithwyr, rhanddeiliaid, llywodraeth a rheoleiddwyr.

**ADOLYGU**

Dysgu o gamgymeriadau, ymateb i gyd-destun sy'n newid, arloesi.

**CYNLLUNIO**

Defnyddio tystiolaeth i lunio llwybrau, blaenoriaethau a chyfaddawdau.

**ADRODD**

Dangos cynnydd, canlyniadau, gwariant a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

**CYFLAWN**

Egluro ymrwymiadau Dŵr Cymru a swyddogaeth partneriaid.

# Rhannwch eich safbwyntiau

Cliciwch ar y ddolen isod i lenwi ffurflen syml i roi eich adborth ar y ddogfen ymgynghori hon.

**EICH ADBORTH**

Neu anfonwch e-bost atom i strategy@dwrcymru.com gyda "Ymgynghoriad ar y Strategaeth" yn llinell y pwnc.

Dydd Sul 15 Tachwedd 2026 yw'r dyddiad terfyn ar gyfer ymatebion.

**dwrcymruplans.com**

## CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

1. **CYFEIRIAD CYFFREDINOL**
   I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cyfeiriad cyffredinol a gyflwynir yn y Strategaeth ddrafft?

2. **CANLYNIADAU STRATEGOL**
   A ydym ni wedi nodi'r canlyniadau hirdymor cywir i gwsmeriaid, cymunedau ar amgylchedd? Os nad ydym, beth fyddech chi'n ei newid?

3. **EGWYDDORION CYFLAWNI**
   A ydych chi'n cefnogi'r egwyddorion cyflawni a gynigir yn y Strategaeth? A oes unrhyw egwyddorion y byddech yn eu hychwanegu, yn cael gwared arnynt neu'n eu newid?

4. **CYDBWYSEDD BLAENORIAETHAU**
   A yw'r Strategaeth yn sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng gwella perfformiad presennol a pharatoi ar gyfer heriau hirdymor?

5. **PARTNERIAETH A DIWYGIO**
   A yw'r Strategaeth yn rhoi'r pwyslais iawn ar gydweithredu, partneriaeth a diwygio rheoliadau lle na all Dŵr Cymru gyflawni'r canlyniad ar ei ben ei hun?

6. **EGLURDER A GONESTRWYDD**
   A yw'r Strategaeth yn cynnig asesiad digon eglur a gonest o'r heriau, y cyfyngiadau a'r cyfaddawdau sy'n wynebu Dŵr Cymru?

7. **BETH SYDD AR GOLL?**
   Beth, os oes unrhyw beth, sydd ar goll o'r Strategaeth ddrafft?

8. **UN PETH I'W NEWID**
   Pe gallech chi newid un peth cyn i'r Strategaeth gael ei chwblhau, beth fyddai'r peth hwnnw?



dwrcymru.com